

# Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Ionawr 2021

1. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) ar 8 Ionawr 2021.
2. Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a Diben

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu wedi hynny yng Nghymru.
4. Dyma'r cyfraddau o 1 Ebrill 2021 ymlaen:
  - Y gyfradd safonol yw **£96.70** y dunnell (wedi'i chynyddu o £94.15 y dunnell)
  - Y gyfradd is yw **£3.10** y dunnell (wedi'i chynyddu o £3.00 y dunnell)
  - Y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw **£145.05** y dunnell (wedi'i chynyddu o £141.20 y dunnell).
5. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2020 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a ragnodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020.

## Gweithdrefn

6. Y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.



**7.** Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu, neu ei bod ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith

## Rhinweddau: craffu

- 8.** Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r offeryn hwn.
- 1.** Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r tair cyfradd ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.

## Amcanion polisi

**9.** Mae'r datganiad ysgrifenedig dyddiedig 21 Rhagfyr 2020 gan y Gweinidog Cyllid (y Gweinidog) yn nodi fel a ganlyn:

“O 1 Ebrill 2021, byddaf yn codi cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant. Bydd hyn yn gyson â chyfraddau treth tirlenwi 2021-22 y DU, i gefnogi amcan y polisi o leihau'r gwastraff y ceir gwared arno mewn safleoedd tirlenwi, ac i'n helpu i gyflawni'r nod o fod yn wlad ddi-wastraff.”

**10.** Mae'r cyfraddau safonol ac is arfaethedig o dreth gwarediadau tirlenwi yn gyson â chyfraddau treth tirlenwi y DU. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r rheoliadau hyn yn egluro bod hyn er mwyn darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhanddeiliaid hynny y mae'r dreth yn effeithio arnynt. Esboniodd y Gweinidog fel a ganlyn yn ei datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato uchod:

“Trwy bennu cyfraddau sy'n gyson â threth tirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn parhau i elwa ar refeniw'r dreth tra'n lleihau'r risg o weld gwastraff yn cael ei symud ar draws ffiniau.”

**11.** Mae'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi wedi'i gosod yn uwch na'r gyfradd safonol (cyfradd safonol + 150%), gan greu rhwystr ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol, a chael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon.

## Ymateb y Llywodraeth

**12.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad. Ni roddwyd ymateb.

## Safbwynt y Pwyllgor

**13.** Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.